# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd hybrid yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol dros Zoom

**Nos Iau 30 Ionawr 2025 am 7.00**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Catrin Wager
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Gwilym Owen

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Huw Jones

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams

**Cynghorwyr Sir**
Y Cynghorydd Rheinallt Puw

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. E Mary Jones.

**Ymddiheuriadau** – Y Cyng. Rheinallt Puw, Paul Rowlinson a Dyfrig Jones.

**2. Datgan Diddordeb**

Dim.

**3. Materion Brys**

Dim.

**4. Cofnodion**

Yn dilyn ychydig o gywiriadau, cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2024.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**

**5.1 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig -** Cytunwyd bydd y tirfeddiannwr yn creu les newydd - ar y gweill.

**5.2 Cae Chwarae Pantdreiniog -** Yn dilyn archwiliad diogelwch ROSPA, nodwyd fod y difrod ar y llawr yn risg isel ar hyn o bryd, y Cyngor i gadw llygaid ar y mater. Cadarnhawyd bydd y Swyddog Cynnal yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar y safle wythnos nesaf, a bydd hyn yn lliniaru'r unig risg ganolig a nodir yn yr adroddiad.

**5.3 Lon Newydd - Dŵr yn llifo -** Adroddwyd fod y dŵr dal i lifo. Y Clerc a'r Cynghorwyr i gysylltu â Chyngor Gwynedd eto, ac i dynnu sylw at broblemau diogelwch a fydd yn digwydd pan fydd y tywydd rhewllyd yn dychwelyd.

**5.4 Cynllun Bioamrywiaeth -** Y Clerc a'r Cyng. Catrin Wager i edrych dros y ddogfen, ac yna ei ail gyflwyno i'r Cyngor.

**5.5 Cysgodfan Bws ger Maes Bleddyn -** Y Clerc i edrych ar osod cysgodfan ger mynediad Maes Bleddyn - ar y gweill.
**5.6 Ffordd rhwng Sgwâr Rachub a Hen Barc** - Derbyniwyd copi o ohebiaeth gan y Cyng. Huw Jones at Cyngr. Paul Rowlinson ac Einir Williams, am gyflwr presennol y ffordd. Y Clerc i godi'r mater eto gyda Chyngor Gwynedd.
**5.7 Torri Coed Ogwen Bank** - Adroddodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at yr adran gorfodaeth a'r adran bioamrywiaeth ynglŷn â nifer fawr o goed yn cael ei thorri ar y safle - disgwyl ymateb.

**6. Clwb Ieuenctid Bethesda**
**Clwb Ieuenctid –** Nid yw'r Cyngor nag y Cyng. Einir Williams wedi clywed gan Gyngor Gwynedd am y treial o'r noson ychwanegol ar gyfer plant 14 oed drosodd. Nodwyd fod y Clerc wedi holi'r Cyngor am gostau presennol – oddeutu £8,700 y flwyddyn.

**7. Archeb 2025-26**
Adroddwyd fod yr Is-bwyllgor Cyllid wedi cyfarfod ym mis Tachwedd, ac wedi mynd drwy'r eitemau yn yr archeb yn fanwl. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ar yr archeb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £112,361.00. Y Clerc i anfon y ffurflen at Gyngor Gwynedd. Diolchwyd i'r pwyllgor cyllid am eu gwaith.

**8. Maes Parcio Gerlan**
Adroddwyd nad yw'r gofrestr tir wedi'i diweddaru eto yn dilyn gwerthiant y tir. Nodwyd rhwystredigaeth y cyngor unwaith eto. Y Clerc wedi cysylltu gyda'r aelod seneddol – ar y gweill.

**9. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Ionawr 2025'
**9.1** Ieuan Wyn, Comisiwn Cymunedau Cymraeg - Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi, y Clerc i ddanfon llythyr at Mark Drakeford AS.
**9.2** Cyfeillion Llyn – ail gyflwyno'r ohebiaeth hwn yn cyfarfod mis nesaf, y Clerc i gynnwys Polisi Iaith ar yr agenda.
**9.3** Sheryl Hughes, Clwb Chwaraeon Tregarth- Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi ac yn cyfrannu £500.00 tuag at y prosiect.
**9.4** Sian Gwenllian AS - Ysgol Deintyddfa ym Mangor - Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi'r cynnig, y Clerc i ddanfon llythyr at Jeremy Miles AS.

**10. Penderfyniadau a Cheisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C23/0207/13/CR**<br>Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | <br>Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C24/0138/13/LL**<br>1 Yr Ardd Fawr, Ffordd Gerlan, Gerlan | <br>Codi annedd deuluol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0390/13/AC**<br>Spar Stores Stryd Fawr, Bethesda | <br>Diwygiad i amod 2 o ganiatâd cynllunio C23/0547/13/LL ar gyfer creu man manwerthu a chanolfan dreftadaeth i ailddefnyddio adeilad SPAR a chodi estyniad tri llawr, er galluogi newidiadau i'r cynlluniau a gymeradwywyd i gynnwys gosod pwmp |

| | |
|---|---|
| | gwres ffynhonnell aer a phaneli ffotofoltaig, ac ychwanegu mwy o reiliau diogelwch.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau. |
| **C24/0731/13/LL** | Blodau Hyfryd, 7 Rhes Victoria, Bethesda<br>Newid defnydd siop bresennol yn fflat un ystafell wely.<br>**Penderfyniad:** Gwrthodwyd. |
| **C24/0809/13/DT** | 36 Glanogwen, Bethesda<br>Dymchwel estyniad unllawr ochr presennol, a chodi estyniad unllawr ochr newydd.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0846/13/DT** | Ivy Cottage, 13 Penygraig, Bethesda<br>Cais i gadw Pwmp Gwres Aer yng nghefn yr eiddo<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau. |
| **C24/0827/13/LL** | Stryd Goronwy, Bethesda<br>Creu ffordd fynediad i ganiatáu parcio oddi ar y ffordd i 11 o geir.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0903/13/DT** | Bwthyn Wiwer, 93 Ffordd Carneddi, Carneddi<br>Dymchwel estyniad unllawr presennol i gefn yr eiddo. Codi estyniad deulawr i gefn yr eiddo a chodi lefel yr uchder to presennol.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**<u>Ceisiadau</u>**

Dim.

**11. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| C L Jones | Nwyddau i Llys Dafydd | £22.18 |
| C L Jones | Nwyddau i Llys Dafydd | £211.55 |
| Dŵr Cymru | Cyflenwad dŵr Gorffwysfan | £163.88 |
| Dŵr Cymru | Cyflenwad dŵr Llys Dafydd | £32.48 |
| Partneriaeth Ogwen | Goleuadau Nadolig ar gyfer coeden Gorffwysfan | £54.98 |

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | Kit cymorth cyntaf Gorffwysfan | £19.95 |
| Pritchard's | Coeden Nadolig Gorffwysfan | £240.00 |
| ROSPA Play Safety | Archwiliad Diogelwch Cae Chwarae Pantdreiniog | £318.00 |
| Scottish Power | Goleuadau Nadolig | £136.76 |
| Scottish Power | Goleuadau Nadolig | £238.53 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £182.32 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £101.06 |
| Scottish Power | Trydan Gorffwysfan | £267.74 |
| John Wyn Jones | Cyflog Rhagfyr 2024 | £396.53 |
| CThEM | TWE Rhagfyr 2024 | £99.20 |
| M Hughes & Son | Atgyweirio to sied Llys Dafydd | £2160.00 |
| John Wyn Jones | Cyflog Ionawr 2024 | £396.73 |
| CThEM | TWE Ionawr 2024 | £99.00 |
| C L Jones | Nwyddau i Llys Dafydd | £10.61 |
| C L Jones | Nwyddau i Llys Dafydd | £72.67 |
| Cyngor Gwynedd | Gosod a thynnu goleuadau Nadolig | £7416.02 |
| Llais Ogwen | Hysbyseb rhoddion | £20.70 |
| Partneriaeth Ogwen | Nwyddau – paent ac arwyddion 'anti-climb' | £24.97 |

**12. Crynodeb Llais Ogwen**
Penderfynwyd cynnwys yr isod:
- Goleuadau Nadolig
- Cysgodfan Bws Maes Bleddyn
- Clwb Chwaraeon Tregarth
- Ffordd rhwng Sgwâr Rachub a Hen Barc